"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1887. [RHIF 73.

CYNNWYSIAD.

TUD.

Undodiaeth, a'n dyledswydd arbenig i'w hamddiffyn.. 193
Duw yn Hollbresenol er yn anweledig 197
Y Parch. David Lloyd, Llwynrhydowen 198
Beth am Undodiaeth? 202
Nodynau Gwasgarog 205
Treulio'r Gwyliau 211
Manion a Hanesion 214
Marwgofion 215

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1887. [RHIF 73.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

UNDODIAETH A'N DYLEDSWYDD ARBENIG I'W HAMDDIFFYN.

(Pregeth a draddodwyd yn y Cyfarfod Blynyddol, Mehefin 23, 1887, *gan y Parch. E. W. Lloyd.)*

1 Petr iii. 15, "Eithr sancteiddiwch yr Arglwydd Dduw yn eich calonau; a byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn." (Mae y rhan gyntaf o'r adnod hon yn y Cyfieithad Newydd fel hyn:—"Sancteiddiwch yn eich calonau Grist fel Arglwydd.")

1 Tim. vi. 12, y rhan flaenaf, "Ymdrecha hardd-deg ymdrech y ffydd."

MAE y geiriau a ddarllenasom fel testynau yn rhai, fel yr ymddangosant i mi, a deilyngant sylw difrifolaf pob creadur rhesymol, ac yn neillduol y cyfryw a broffesant fod yn Gristionogion, neu yn ganlynwyr i'r Arglwydd Iesu Grist, oblegyd fod y cyfarwyddiadau a osodir allan ynddynt, a'r gwersi pwysig a gynnwysant, yn rhai ddylent gael eu dysgu genym a'u dwyn i ymarferiad trwyadl. Fel pe dywedai yr apostol, "Bydded genych wir barch i Dduw fel Duw cyfiawn, sanctaidd, trugarog, a chariadlawn, ac fel un na wna gam â gwr yn ei fater, ond fel un sydd ac a fydd i farnu yn gyfiawn ac i dalu i bob dyn yn ol ei weithredoedd." Diamheu ei bod yn gweddu i ni oll ddal a choleddu syniadau priodol am Dduw fel Creawdwr a doeth Lywodraethwr pob peth, i edrych arno fel Duw sanctaidd, ac, o ganlyniad, fel un sydd yn caru sancteiddrwydd, ac fel un nad oes dim ond sancteiddrwydd, cyfiawnder, gwirionedd, cariad, ac ewyllys da yn gymmeradwy ger ei fron Ef. Byddwch barod bob amser i osod gerbron y cyhoedd resymau anwrthwynebol o blaid eich ffydd. "Sancteiddiwch yn eich calonau Grist fel Arglwydd," a byddwch barod i roddi rheswm dros y paham

y galwch eich hunain yn Gristionogion, neu paham y pleidiwch ac y proffeswch grefydd Crist, wrth yr hyn y deallwn ni "y gobaith sydd ynoch," oblegyd y mae y grefydd Gristionogol wedi ei sylfaenu, yn un peth, ar y gobaith am adgyfodiad ac anfarwoldeb dedwydd a ddeil hon allan o'n blaen—y gobeithion gogoneddusaf ag sydd yn bossibl i greadur rhesymol obeithio am danynt a'u sylweddoli.

Hefyd, os oedd rhywun neu rywrai yn dymuno ac yn galw ar y Cristionogion i roddi rheswm am y gobaith oedd ynddynt, yr oeddynt, a dylent roddi y rheswm hwnw gyda "pharodrwydd," ond, ar yr un pryd, mewn modd gweddus i Gristionogion, sef "Gydag addfwynder ac ofn;" hyny yw, heb roddi tramgwydd diangenrhaid i neb pwy bynag, rhag y buasent, trwy hyny, yn achosi erlidigaeth yn erbyn Crist, Cristionogion, a Christionogaeth, neu greu rhagfarn yn erbyn y cyfryw. Ni all dim weddu yn well a bod yn fwy cydgordiol â chymmeriad proffeswyr crefydd Iesu Grist nâ pharch a gweddeidd-dra at eu huwch a thynerwch at bawb dynion, a gochelyd, os yn bossibl, tramgwyddo neb pwy bynag, "Oblegyd," medd Paul wrth Timotheus, "ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson, ond bod yn dirion wrth bawb, yn athrawus, yn ddyoddefgar, mewn addfwynder yn dysgu y rhai gwrthwynebus" (2 Tim. iii. 25); a dywed Iago, "Pwy sydd wr doeth a deallus yn eich plith? Dangosed, trwy ymarweddiad da, ei weithredoedd mewn mwyneidd-dra.

Gyda golwg ar y sawl nad oes ganddynt un rheswm i'w roddi dros eu hopiniynau, y maent hwy yn dueddol iawn i roddi ffordd gyda'u nwydau, ac i siarad am ac wrth eu gwrthwynebwyr mewn modd anweddaidd, isel, gwawdus, ac i amlygu sêl a thymherau annghymmedrol ac anweddus. Byddai yn ddoeth i'r cyfryw, gan hyny, ddwyn geiriau yr Apostol Iago i'w cof a than eu hystyriaeth ddwys, sef "Canys digofaint gwr nid yw yn cyflawnu cyfiawnder Duw, o herwydd paham rhoddwch heibio bob budreddi a helaethrwydd malais; a thrwy addfwynder, derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau" (Iago i. 20, 21).

Yn awr, yr ydym wedi dewis ein testynau, yn fwyaf neillduol, o herwydd ein bod yn eu hystyried yn sylfaen briodol ddigon i wneyd ychydig sylwadau ar Undodiaeth ac Undodiaid a'n dyledswydd arbenig i'w hamddiffyn.

I. *Pa beth yw Undodiaeth, a pha beth ydym, fel Undodiaid, yn ei gredu?*

1. Wel, credwn yn y Beibl—mai llyfr Duw ydyw.* "Pwy," medd H. W. Beecher, "gan hyny, ydynt y dynion sydd yn elynion anym-

* Yn ol y *Christian World* am Mai y 19eg, 1887, gofyna y diweddar Thos. Star King, o Galiffornia, "Ai gair Duw yw y Beibl, neu eiriau dynion?" A'i ateb yw, "Dim y naill na'r llall. Gair Duw wedi ei anadlu trwy eiriau dynion ydyw, wedi ei gymhlethu mewn modd annattodadwy gyda hwynt fel tôn y gwynt gyda rhinwedd y pren. Y mae yn rhaid i ni," meddai, "fyned i'r Beibl fel i allt neu gell fythwyrdd, nid gan ofyn am wirionedd oer a goleu, ond am ddylanwad sanctaidd, er adfywiad y syniad defosiynol, am anadl yr Ysprydd Glân, nid fel y mae yn crwydro yn y cyfwng pur, ond fel y mae yn ysgubo trwy y *cedars* a'r *pines*,"

wybodol i'r Efengyl? Yn gyntaf, y dynion hyny a ymladdant dros lythyren y Beibl tra y dystrywiant ei yspryd. Credaf fi, yn wir, fod rhai anffyddwyr a ânt i fewn i deyrnas Dduw o flaen rhai duwinyddion. Nid yw y ffordd yr ymladda dynion dros ochr allanol y Beibl yn ffordd dda—ffordd anwybodus iawn ydyw, oblegyd nid yw y Beibl yn gynnwysedig o gynnifer o dudalenau, cymmaint a chymmaint o inc yr argraffydd, cymmaint a chymmaint o eiriau ac o hanes. Yspryd y Beibl yw y gwir Feibl. . . . Mae rhai dynion ag sydd gymmaint yn ffafr y Beibl, fel na rhoddant i fyny y peth lleiaf—un dyddiad na'r tamaid lleiaf o hono. Y maent yn barod i ddamnio y dyn sydd yn wyddorol ar y pynciau hyn; y maent gymmaint yn ffafr y Beibl, fel y sangant i lawr bob greddf o hono gyda golwg i'w amddiffyn. . . . Y mae llawer math o amddiffyniad iawnffyddol o'r Beibl yn ein dyddiau ni. Gwir ysprydoliaeth y Beibl yw, ei fod yn achosi neu yn ysprydoli cariad ynoch ac yn mhawb a'u darllenont. Ni fu erioed, a chredwn na fydd byth, lyfr wedi ei ysprydoli mor uniongyrchol gan Dduw o'i ddechreu i'w ddiwedd. Nid oes un gorchymyn ynddo sydd gyfeiliornus. Yn mhob rhan o hono y mae yn erbyn anifeileidd-dra —yn mhob man yn erbyn dialedd, yn erbyn creulondeb, yn erbyn hunanoldeb, yn erbyn arferiad ein galluoedd deallol i orthrymu y gwan a'r anwybodus; y mae yn mhob man dros gyfiawnder—y cyfiawnder mwyaf a'r rhagoraf. Pa waeth gen' I pa un ai Moses ysgrifenodd Genesis neu beidio? Pa waeth gen' I pa un a oedd hanes hen lyfrau y Testament fel hyn a'r fel? Yr wyf fi yn byw yn awyrgylch y Beibl, a gwelaf pa beth ydyw i'r natur ddynol, pa beth ydyw ei amgyffrediad o ddyndod, pa beth ydyw y dyn tybiol yn y Beibl, a pha fodd y mae yn llais yn dyfod i lawr yn dwyn tystiolaeth i filoedd o flynyddau—yr oll mewn un ffordd, yr oll yn hwylio i'r llif hwnw o gariad Dwyfol, yr oll y mae yn ei ddysgu am Dduw. Llyfr y dyn tlawd ydyw, llyfr y dyn galarus ydyw, llyfr y dyn sydd wan ydyw, llyfr ydyw i'r dyn anwybodus, ac y mae ynddo a chanddo ef yn mhob man arwydd a thystiolaeth o'r Duw a'i ysprydolodd; gyda golwg ar y modd neu y ffordd y mae wedi ei ysprydoli, nid wyf yn gofalu pin. Pan fyddaf yn arogli rhosyn, nid wyf yn bryderus am gael fferyllydd wrth fy ochr i ddweyd wrthyf yn union pa beth sydd yn peru iddo arogli fel rhosyn; buasai hyny yn afreidiol; ond y mae y rhosyn yn ddigon da o hono ei hun: yr wyf yn ei arogli ac yr wyf yn ei feddu. Ac etto, y mae llawer o ddynion sydd yn peru i nerth y Beibl orwedd yn ei ochr allanol, yn ei rifyddiaeth, yn ei ddyddiadau, yn ei amrywiol osodiadau ar ran dynion neillduol mewn oesau neillduol, y rhai y mae gwyddor ac athroniaeth ddiweddar yn eu gwrthbrofi, gan annghofio, yn ystod yr holl amser, ei ardderchogrwydd mewnol, holl allu ac yni y llyfr fel meddyginiaeth i angenion dynion, fel arweinydd i ddynion, yn cynnysgaethu ac yn darparu dyn Duw yn drwyadl i bob gair a gweithred dda.' . . . A phwy yw y sawl sydd yn pregethu y Beibl a'r Efengyl yn iawn? Y rhai sydd yn eu creu yn y bywyd, y duedd a'r ymddygiad; pawb sydd oblegyd eu cariad at Dduw a'i ffydd yn Nghrist—yn ddewr ac yn hyf dros uniondeb —hwy ydynt bregethwyr y Beibl."

Credwn ni, gan hyny, yn y Beibl fel llyfr Duw, yn yr hwn ydym yn cael pob cymhelliad ac annogaeth i fod yn ddylynwyr Duw fel plant anwyl, i ymdebygoli iddo trwy weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain trwy ofn a dychryn. Ymddiriedwn ni, gan hyny, yn ei yspryd, ac nid yn ei lythyren, gan gofio mai lladd y mae y llythyren, ond fod yr yspryd yn bywhau; ac ar gyfrif hyny, credwn ni "Fod pob Ysgrythyr ysprydoledig gan Dduw hefyd yn fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda:" 2 Tim. iii. 16, 17. Ac am hyny y bendithiwn y trugarog Dad am dano.

2. Y mae yn gynnwysedig mewn Undodiaeth y grediniaeth "o Un Duw." Nad oes ail iddo yn bod yn y nefoedd nac ar y ddaear, mewn gallu nac awdurdod, nac yn un o'i briodoleddau sanctaidd ac anfeidrol. Ei fod yn anfeidrol uwch, ac annghydmharol well nâ phawb bodau ereill. Dyma wirionedd sydd yn cael ei osod allan yn y Gyfrol Sanctaidd gan Moses a'r proffwydi, a chan Grist a'i apostolion, a'r Cristionogion cyntefig, "A'r Iesu a atebodd iddo, Y cyntaf o'r holl orchymynion yw, Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw; a char dy Arglwydd â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw'r gorchymyn cyntaf:" Marc vii. 29, 30. "A hyn," medd yr Iesu mewn gweddi ddifrifol at y Tad, "yw'r bywyd tragwyddol; iddynt dy adnabod Di, yr unig wir Dduw, a'r Hwn a anfonaist Ti, Iesu Grist." "Canys, er bod rhai a alwir yn dduwiau," medd Paul, "pa un bynag ai yn y nef, ai ar y ddaear (megys y mae duwiau lawer, ac arglwyddi lawer), eithr i ni nid oes ond un Duw, y Tad, o'r Hwn y mae pobpeth, a ninau ynddo Ef, ac un Arglwydd, Iesu Grist, trwy yr Hwn y mae pobpeth, a ninau trwyddo Ef:" 1 Cor. viii. 5, 6. "Canys un Duw sydd, ac un Cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu:" 1 Tim. 2, 5.

Dywedir rhywbeth i'r perwyl yma yn y *Christian World*, Chwefror 24, 1887, "Ein sefyllfa, neu ein gosodiad yw hwnw o eiddo yr Apostol Paul, 'Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb.'" Ond daliwn ni fod eneidiau amheus yn aflonyddu eu heneidiau yn ddiangenrhaid, yn nghylch dadblygiadau diweddar yr efengyl, os oes ganddynt wreiddyn y mater fel y mae yn cael ei ddarlunio yn nechreu St. Matthew. Ni ellir dychymygu am foment i'n Harglwydd Iesu adael ei wrandawyr mewn anwybodaeth o unrhyw beth hanfodol er eu hiachawdwriaeth. Pe buasai yn angenrheidiol er eu hiachawdwriaeth iddo Ef i roddi athrawiaeth awdurdodedig o'r Drindod, buasai wedi ei roddi. Pe buasai yn angenrheidiol er eu hiachawdwriaeth, iddo Ef ddywedyd wrthynt yn bennodol, pa fodd y gall Duw fod yn gyfiawn tra yn maddeu pechod, buasai wedi esponio hyny iddynt; ac felly, gyda holl elfenau ereill credöau duwinyddol. Gall fod yn wir neu gau; ond os na ddysgwyd gan yr Iesu ei hunan i'r eneidiau ddysgwylient wrtho, ac a wrandawent arnynt, ni allant yn bossibl fod yn angenrheidiol er iachawdwriaeth. Iachawdwriaeth ei hunan yw, fel y dysgodd yr Iesu ddaioni, purdeb, gwirionedd—bod yn berffaith fel y mae ein Tad, yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.

Y mynediad plaen i iachawdwriaeth yw trwy gariad Crist." Yn awr, ymddengys i mi ei fod yn beth gresynus i feddwl na fyddai dynion yn ymfoddloni ar delerau iachawdwriaeth y Gyfrol Sanctaidd, sef "Cariad at Dduw a dyn."

3. Tadoldeb Duw. Athrawiaeth goronog, yn neillduol y Testament Newydd ydyw hon. "Pan weddioch, dywedwch, ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd," medd yr Iesu. Tad didderbynwyneb ydyw hwn, ac un sydd yn profi yn ei holl ffyrdd a'i ymdriniadau â ni, mai "Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia'r Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant Ef." "Canys y mae Efe yn peru i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r annghyfiawn." "Duw cariad yw, ac felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd Efe ei unig anedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol; oblegyd ni ddanfonodd Duw ei Fab i farnu y byd, ond fel y byddai y byd i gael eu gadw trwyddo Ef." Y mae dammeg y Mab Afradlon yn gosod allan dadoldeb Duw, yn y goleu mwyaf argraffiadol, deniadol, a gorfoleddus. Wel, os yw Duw felly yn dadol ac yn gariadlawn, ac yn golygu ein lles a'n dedwyddwch uwchaf yn ei holl drafodaethau a'i oruchwyliaethau tuag atom ni, y mae yn canlyn mai ein dyledswydd ninau, fel ei blant, yw bod yn gariadlawn hefyd, a bod yn berffaith fel y mae ein Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith; ac yn hyn, fel yr ymddengys i ni, y mae ein hiachawdwriaeth yn gynnwysedig.

4. Fod byd arall yn ein haros. "Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd." "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Nid y bedd yw ein cartref arosol. "A hwy a ddeuant allan, y rhai," &c.

5. Fod Crist yn Fab Duw, ac yn Iachawdwr dynolryw, yn Flaenor ac yn Arweinydd at y Tad, yn frawd, yn gâr, ac yn gyfaill i ni; ac er iddo gael ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a'i frodyr, cnawd o'n cnawd, ac asgwrn o'n hagwrn, iddo dderbyn yr yspryd tufaes i fesur. Mai un Duw sydd, ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu, yr Hwn yw goleuni y byd. Credwn ynddo fel Crist Duw, ac Iachawdwr y byd.

(I'w barhau.)

DUW YN HOLLBRESENOL ER YN ANWELEDIG.

(*O God! beyond that boundless sea.*—CONDER.)

TON:—SPOHR.

O Dduw! tu draw i'r eigion mawr, goruwch wybrenol lu,
Lle nis gall 'hedeg meddwl dyn, y mae dy drigfa fry;
Ond hoff im' ydyw'r syniad dwys mai agos im' wyt ti.

Wyt agos im'—ond chwilio'th Fôd llwyr ofer yw fy ngwaith:
Dy genad ydyw'r corwynt certh—dy lwybr, y môroedd maith:
Ond yn y dymestl pwy a'th wél neu yn y cefnfôr llaith?

Dy lais a glyw'n pan drwy y nen, y daran rua'n gry':
Y don dawela wrth dy air; ond yno nid wyt ti.
O f'enaid! p'le caf ef 'rhwn sydd a'i hanfod ar bob tu?

O fewn i'r fynwes—ac nid fry, neu obry dan y don—
Amlwg i ffydd, er cudd i'r cnawd—gorphwysa'i yspryd llon:
Anfeidrol Bresenoldeb! tyr'd, a dedwyddola'm bron.

E. Ceredig Jones.

Y PARCH. DAVID LLOYD, LLWYNRHYDOWEN.

(Parhad o dudalen 180.)

Ya oedd llwyddiant, bron yn ddieithriad, yn dylyn llafur gweinidogaethol David Lloyd. Nifer y sawl a gymmunent yn Llwynrhydowen, ar farwolaeth Jenkin Jones, oedd oddeutu 80. Yn y gynnulleidfa hon, a'r cynnulleidfaoedd cyssylltiedig â hi, y rhai a ffurfiwyd gan Mr. Lloyd, yr oedd nifer y cymmunwyr ar ei farwolaeth, yn nechreu y flwyddyn 1779, oddeutu 800, tra y rhifai y gwrandawyr yn agos bedwar cymmaint â hyny. Yr oedd y rhai hyn, yn wir, yn ddynion goleuedig, ac mae'r coffa am danynt yn anwyl hyd heddyw, er fod dirywiad mawr wedi cymmeryd lle wedi'r amser hwnw. Ymgasglent o bellder o ugain milldir, mewn rhai achosion, a llawer o honynt ar draed. Yr oedd y syched am wybodaeth a nodweddai y dynion hyn, yr arucheledd cymmeriad moesol a ddangosent, y fath, fel yr ymddengys y manylion yn ddim llai nâ rhyw ystori ramantus i ddynion yr amserau a'r gwledydd hyn. Gellir dweyd am David Lloyd mai efe oedd y siaradwr mwyaf cywir ac hyawdl a ymddangosodd erioed yn ei ardal. Yr oedd ei lwyddiant yn gyfatebol. Lawer gwaith, yn y wlad deneu ei phoblogaeth hono, bu orfod i'r pregethwr, yn nyddiau olaf ei fywyd, i adael y lle o addoliad, ac i anerch y bobl gynnulledig yn yr awyr agored, pan y safai o'i flaen ef, ar adegau, ddim llai nâ thair mil o bersonau, yn hen ac yn ifainc. Ar y fath achlysuron yr oedd fynychaf yn ddrylliog ei deimladau cyn dechreu ei bregeth; ond wedi iddo adferu ei hunanfeddiant, ac anerch y dyrfa astud, yr oedd prydferthwch ei wynebpryd, mawredd ac urddas ei berson, purdeb a chwmpas ei lais soniarus, dwysder a dillynder ei hyawdledd, a phwysfawredd ei destyn, yn tynu sylw pawb, ac yn gyru pawb i wylo: ac anfynych iawn yr ymwasgarai'r dorf heb ddangos eu cymmeradwyaeth, yr hyn a wnelid gan rai a ddeuent yno yn llawn teimlad drwg a rhagfarn; ac os dyg-

wyddai'r bregeth fod ar bwnc dadleugar, elai llawer oddiyno wedi eu hargyhoeddi a'u troi. Gallwn feiddio dweyd mai anfynych iawn, oddiar yr oes apostolaidd, mae y fath effeithiau wedi cael eu cynnyrchu gan siarad poblogaidd: ac iaith y wlad yn gyffredin oedd, na ellid cymharu Mr. Lloyd i neb ond i Paul yn Athen. Yr oedd ei ddylanwad cyffredinol i'r diwedd yn fawr, a'i boblogrwydd yn yr ardal yn ddiderfyn. Tybid y gallai efe yn wirioneddol ddylanwadu yr etholiad dros y sir; ond yr oedd ef yn foddlon ar roddi pleidlais annibynol fel tirfeddiannwr. Bu ei lafur gweinidogaethol yn offerynol i ddwyn oddiamgylch syniadau gwell mewn crefydd, ac i hyrwyddo gwareiddiad yn Neheudir Cymru. Yr oedd ei garedigrwydd a'i urddas yn creu teimlad cymmysg o ymlyniad ac o barch yn mysg y bobl dlodion, ac yr oedd ei ddysgeidiaeth uchel a'i wybodaeth eang yn ei wneyd yn ffafrddyn gan yr offeiriaid a'r boneddwyr. Un foneddiges, yr hon oedd wedi gweled cryn lawer o'r byd, a arferai ddweyd, mai efe oedd y gwr boneddig ffeina y daeth hi erioed i gyffyrddiad ag ef, nid am yr hyn a elwir yn aml yn foneddigeiddrwydd, ond am ei goethder, ei dynerwch, a'i deimlad. Ond dylid siarad yn fwy pendant am ei ddysgeidiaeth. Gwyr ysgrifenydd yr erthygl hon yn arferai ddarllen oddeutu hanner can' tudalen bob dydd o un o'r Tadau Groegaidd, yn ystod mis diweddaf ei oes. Mae rhai esiamplau ar glawr o'i *style* Ladinaidd, yr hon oedd yn dlos, a gellir cael gafael ar amryw o'i bennillion yn y Groeg a'r Lladin. Ac er mwyn profi yr hyn ydym wedi ddweyd, gallwn roddi i'r darllenydd Groegaidd *idea* o fesur a chynghanedd yr englyn Cymreig:—

Apantôn theiôn theôs—megiste
M' ag' es to mou telos;
To kratiston dôron dos
Tou thanein kaôs sthenos.

Duw y duwiau—y penaf Dduw,
O arwain fi tra fyddwyf byw,
O dyro im' y goraf ddawn,
Rho imi nerth i farw'n iawn.

Gellir sylwi yma, fod ei holl gyfansoddiadau, mewn rhyddiaeth a barddoniaeth, yn meddu ar *enciniad* gyfoethog o ddefosiwn a duwioldeb. Fel prawf o'i ddysgeidiaeth gallwn ddweyd iddo yn raddol ennill adnabyddiaeth a chyfeillach yr holl offeiriaid yn ei gymmydogaeth, y rhai a ystyrid yn ddysgedig; yn eu mysg oedd y Parch. Leyson Lewis, ac yn enwedig y Parch. Thomas Howel, Penybaili, yr hwn a ddywedai er ei fod wedi aros mewn coleg bedair blynedd ar ddeg, ac wedi gwneyd Groeg yn brif bwnc ei efrydiaeth yn ystod yr amser hwnw, fod Mr. Lloyd yn uwch nag ef yn ei wybodaeth o'r ieithoedd clasurol, ac fod gwyleidd-dra David Lloyd yn ei rwystro i addef y gallasai ddarllen y chwareugerddi Groegaidd heb gymhorth, yr hyn a wnelai yn ddiamheu yn rhwyddach nâ'i hunan, yr hwn, meddai, nid oedd ganddo ddigon o wyleidd-dra i wneyd yr un gosodiad hunanymwadol. Mae yn sicr i Dr. Kippis, yr hwn a adwaenai Mr. Lloyd yn bersonol, ddweyd wrth

Dr. Priestley, ar adeg ordeiniad y Meistri Jervis, yn Lymstone, yn swydd Devon, lle y clywid yr hanes am ei farwolaeth, mai efe oedd y dyn mwyaf hyddysg a adwaenodd erioed,—"that he was the best read man he ever knew." Cymmerasai ormod o amser i nodi fod David Lloyd yn ohebwr â Foster, Chandler a Benson, yn gydnabod ac yn ohebwr â Price a Kippis, ac ereill y mae eu henwau yn yr holl eglwysi ac yn yr holl fyd. Ni wnawn aros 'chwaeth i grybwyll iddo gael ei appwyntio unwaith yn athraw yn yr athrofa yn Nghaerfyrddin—appwyntiad a wrthododd. Ond mae'r amgylchiad hwn yn galw i gof ei fod yn gydnabod i Syr, y pryd hwnw Mr. William Jones, pan oedd ar ei gylchdaith Gymreig: a gellir nodi fod gwagle trist yn y rhan hon o'i fywyd gan Arglwydd Teignmouth, yr hwn, digon tebyg, a ddygwyddodd heb un bwriad. Llettyai Mr. Jones, tra yr arosai yn ystod y brawdlysoedd, yn nhŷ Dr. Jenkins, yn y Spring Gardens, Caerfyrddin; yn nhŷ yr athraw Annghydffurfiol dysgedig hwn, yr arferai David Lloyd gyfarfod ag ef. Nid oedd y Dr. yn annheilwng i ffurfio un o'r tri. Os gwelwn yn rhywle, yn ddiddadl ni a welwn yma, "wledd rheswm a ffrydiad enaid." Yn sicr, nid yw yn brawf bychan o deilyngdod fod y ddau hyn wedi cael eu derbyn fel cymdeithion i William Jones. Mae gan feddyliau ydynt wedi eu gwneyd yn debyg, at-dyniad y naill tuag at y llall: gallant gael gafael y naill yn y llall, yn yr anialwch. Cawsant afael yn eu gilydd ar fynyddoedd Cymru. Yr oedd David Lloyd yn wir gynnefin â'r Iaith Gymraeg, a chyfansoddodd ran o'r farddoniaeth dlysaf a phrydferthaf a geir yn y iaith. Llefarai ac ysgrifenai y Iaith Saesneg; cynnwysai ei wybodaeth o'r ieithoedd henafol yr Hebraeg, a darllenai y Ffrengaeg a'r Eidalaeg gyda rhwyddineb. Chwareuai yn fedrus ar y crwth, ac yr oedd yn ddeheuig yn yr oll bron o'r ymarferiadau corfforol. Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf o'i fywyd, dywedir iddo fyned trwy gwrs o efrydiaeth mewn *mathematics*, a bu farw ar y 14eg o Chwefror, 1779. Ni wnelid cyfiawnder â'i gymmeriad heb sylwi ar y gefnogaeth a roddai i ddysg a thalent mewn dynion ieuainc. Am ychydig amser ymgymmerodd ag addysgu pobl ieuainc, er mwyn, yn benaf, rho'i addysg i'w frawd, y diweddar Barch. Posthumus Lloyd, Coventry, a'i berthynas, y diweddar Barch. Samuel Thomas, Dublin. O'r gweddill o'i ysgolheigion, nid oes un o honynt 'nawr o fewn ein cof, oddieithr y diweddar Barch. Dr. Lloyd, o Lynn, yr hwn, fel meistr yr Ysgol Rydd yn y lle hwnw, a addysgodd y rhan fwyaf o foneddwyr o ogleddbarth Norfolk. Cafodd llawer ereill, yn weinidogion ac yn lleygwyr, gefnogaeth galonog ganddo wrth geisio casglu gwybodaeth. Mae rhai o honynt, yn Nghymru a Lloegr, yn fyw yn awr. Mae llawer rhagor wedi eu casglu at eu tadau. Yr oeddent i gyd yn ei barchu a'i garu, a pharha ei oroeswyr yn awr i ddweyd am ei rinweddau a'i ragoroldeb. Y sawl a'i clywsant yn unig, a'r sawl a'i gwelsant, a nodant yr amgylchiad fel math o gyfnod yn eu bywydau. Pa un ai *orthodox* neu *heterodox*, teimlent hi yn fraint ac yn anrhydedd i gael unrhyw wybodaeth am David Lloyd. Yn y dyddiau hyny, ystyrid ei olygiadau crefyddol yn *heretical*. Gellid ei alw yn Ariad, ac yn Arminiad.

Pasiaf heibio i olygfeydd ei afiechyd a'i farwolaeth, y rhai ni allant byth gael eu dileu oddiar fy nghof; yr oeddent o nodwedd mor odidog a dwys fel ag i gael effaith ar galon mwy difraw ac ieuengach nâ fy nghalon I. Yn ei angladd yr oedd wedi ymgasglu dorf na welir ei bath yn aml, o alarwyr ag oeddent wedi eu tynu gan deimladau dryllio eu mynwesau. Cyfrifid fod yno ddwy fil o bersonau yn bresenol, heb gael un gwahoddiad, llawer o honynt ar geffylau. Yr heol dros y bryniau at yr eglwys lle yr oedd i gael ei gladdu, a amlygai un linell hir o ddwy filldir o orymdaith, ac yr oedd yr olygfa yn *grand* ac yn gyffrous dros ben. Anfynych y gwelwyd y fath alaru. O'r braidd y mae wedi darfod heddyw. Ymdaenai pregethau, ac emynau, a galarnadau dros yr hanner deheuol o'r dywysogaeth, ac ni pheidiodd am fisoedd meithion. Ar ddydd claddedigaeth ei weddw, pan ddaeth ei arch i'r golwg yn yr un beldrod, aeth syndod ar bawb wrth weled mor ffres yr ymddangosai y brethyn du a'r *plates:* ond dylynwyd hyn gan olygfa fwy annghyffredin. Darfu i'r bobl ag oeddent wedi ymdyru mor lluosog at eu gilydd dori tameidiau o'r brethyn, a'u cario hwy adref fel coffadwriaeth am eu hanwylddyn, a dywedent y byddai iddynt eu cadw hyd derfyn eu hoes. Yr oedd chwaer henaf Mrs. Lloyd yn briod â ficer y plwyf, yn yr hwn y saif Llwynrhydowen, bywiolaeth yr hwn oedd yn nwylaw awdurdodau Coleg Iesu, Rhydychain. Yr oedd yn dlyn dysgedig, ac wedi mwynhau addysg golegawl. Yr oedd ei egwyddorion yn gul o barthed i holl hen sefydliadau yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Gan mai oddeutu yr amser hwn y torodd y ddadl Fangoraidd enwog allan, darfu iddo ef gymmeryd cwrs penderfynol yn erbyn athrawiaethau Hodley. Bu fyw i ddyfod yn dad i esgobaeth Tŷ Ddewi, ac i weled dyddiau Horsley. Er hyny, er iddo gael cryn help trwy ddylanwad ei fab, Admiral John Thomas, ni chafodd un dyrchafiad yn yr eglwys, yr hyn a ddysgwylid yn naturiol i berson o yspryd mor llariaidd. Boddlonai yr esgob ei hun trwy ymbwyso ar ei fraich yn gyhoedd, a'i alw yn "dad." Pan ddaeth yr offeiriad dysgedig yn frawd-yn nghyfraith i'r sectariad mwy dysgedig fyth, yr hwn a weinidogaethai yn ei blwyf ei hunan, darfu iddo amlygu ei sarugrwydd a'i ddyeithrwch offeiriadol, ond diflanodd y teimlad digofus hwn yn fuan iawn. Nid oedd y ficer yn gyfarwydd â chynnildeb. Yr oedd gwelliantau neillduol, ar amserau, yn gyfleus. Gomeddid y teitl o Barchedig ar y dechreu, ond ar ol hawl boeth i'r enw, cafodd ei ganiatau heb un brotest.. A dadganiad David Lloyd wrtho, pan gawsent lawer ymgom wresog ar y degwm, oedd, "Mr. T——, os ydych am fyw mewn heddwch â'ch plwyfolion mi a'ch caraf fel fy mrawd." Yr oedd Mr. a Mrs. Lloyd yn haelionus a chymmwynasgar iawn,—yn myned yn aml tuhwnt i derfynau callineb. Ni chymmerodd Mr. Lloyd erioed, ar y cyfan, ugain punt y flwyddyn oddiwrth ei gynnulleidfa, yr hyn a rhagor a wariai mewn gweithredoedd o haelioni. Yr oedd Mrs. Lloyd bob amser yn barod i ymadael a'i swllt diweddaf. Gallasai ardal ddinod fod wedi eu cuddio oddiwrth y byd. Ond fe bâr rhinweddau y naill, a chyrhaeddiadau rhagorol y llall, iddynt gael eu cofio yn hir yn eu cymmydogaeth: tra ni erys y byd, fel y dywedir, yn hollol an-

wybodus o'u teilyngdod. Ni all holl lechres hanes a bywgraffiad ddangos dyn yn y fath amgylchiadau, nac yn wir mewn unrhyw amgylchiadau, sydd wedi haeddu uwch enw am ddysg, gwahanol gymhwysderau a defnyddioldeb, na David Lloyd. Ni ellir penderfynu p'un sydd fwyaf teilwng o edmygedd, ei sefyllfa ddinod, neu ei gynneddfau ardderchog. Os teimla'r ysgrifenydd hi yn anrhydedd mawr ei fod yn hanu o'r fath rieni, os yr addefa ei fod yn credu na chaiff weled eu tebyg mwy; gobeithia yr esgusodir ef, ac hyd y nod edrycha am gydymdeimlad. Os yw wedi siarad am danynt mewn iaith uchel o ganmoliaeth, nid oes ganddo, fel esgusawd, ond y teimlad llywodraethol o serch mabaidd ac o barch tuag atynt. Fe all ddweyd, fodd bynag, yn ddidwyll, ei fod wedi dweyd "y gwir a dim ond y gwir," hyd eithaf ei farn a'i wybodaeth. Gwyr nad yw wedi bod yn abl i ddweyd "yr holl wir," yr hwn a allasai gael ei ddweyd gyda mantais a lles. Mae wedi derbyn pleser digymmysg wrth wledda ar yr hen adgofion hyn, a gobeithia ei fod wedi rhoddi rhywfaint o bleser i'w ddarllenwyr hefyd. Mae ganddo hefyd bleser mawr yn y rhagddysgwyliad o gael ail-gyfarfod a'r sawl na all efe byth lai nag anwylo a pharchu y coffa am danynt. Mae myfyrio ar arucheledd yn hyfryd ac yn llesiol. Mae y dysgwyliad o gael cyfeillach felus a'r meirw hoff yn llesmeiriol. O ddedwydd ddydd.

Highgate. C. Ll.

Sef y Parch. Charles Lloyd, Ll. D.

BETH AM UNDODIAETH?

(Parhad o dudalen 185).

Pan y mae dyn yn dweyd un peth fel swyddog ystad eglwys, a pheth hollol i'r gwrthwyneb fel ei argyhoeddiad personol, ymddengys i ni ei fod fel Adda gynt, yn meddwl y gallai ymguddio o olwg yr Arglwydd yn mysg prenau yr ardd—yn meddwl y gall chwareu *trick* â'r Holl-alluog o dan gochl credöau saint yr eglwys. Ai nid dyna beth yw ymgecran â'r gwirionedd, a rhithio o flaen Duw? Mae'n bossibl i ni oll gael ein hunain-dwyllo trwy ragfarn a thueddiadau etifeddol ac addysgiadol, ac i ystwytho a dirdynu ein cydwybodau er mwyn elw bydol; ond gallwn ddybynu nad oes dim un math o dwyll resymeg, dim *Ecclesiastical casuistry*, dim *Jesuitical sophistry* a all dwyllo'r Holl-wybodol, na helpu i ledaenu gwirionedd Duw. Y mae llawnodi hen gredöau, ac ymgymmeryd â'u dysgu fel *crediniaeth*, fel yn anhebgorol angenrheidiol i iachawdwriaeth dyn, yn annghysson â rhyddid crefyddol, ac ymchwil y meddwl i gael allan wirioneddau Duw. Ymgais ofer ydyw i gymmodi yr hyn sydd yn annghymmodadwy. Peidiwch fy nghamsynied. Nid wyf yn beio un dyn am ei farn grefyddol, *os* na fydd yn fy rhwystro i gael yr un rhyddid. Creded mewn seremon-

iau, erthyglau, a phynciau dirif, a thraddodiadau lawer, ac mewn duwiau lawer, os y myn, ond bydded yn ffyddlon i'w oleuni, ac yn gysson yn ei argyhoeddiad, i'w weithio allan yn ei fywyd hyd y mae ynddo. Ond peidied a bod yn rhy frysiog i gondemnio ereill nad ydynt yn credu fel efe. Boed iddynt gofio yr hyn a ddywedodd Cromwell wrth dduwinyddion Ysgotland, pan oeddent yn ei llino â llythyrau parhaus, ac yn ei sicrhau ei fod yn gamsyniol iawn—mai dyn drwg enbyd oedd; ei atob oedd, "Anwyl frodyr, yr wyf yn deisyf arnoch gofio ei bod yn ddichonadwy eich bod chwithau dipyn yn gamsyniol?"

Yn ol egwyddorion yr Uchel Eglwyswyr, y mae crefydd yn gynnwysedig mewn credoau, seremoniau, a sacramentau, yn cael eu cyflawnu gan ddynion appwyntiedig, disgynyddion mewn llinell didor o'r apostolion. Dyna fel y rhesymant. Y mae dynoliaeth wedi syrthio. Daeth Crist i'r byd i achub pechaduriaid trwy farw drostynt, a chymmeryd baich eu pechod ar ei ysgwyddau ei hun. Yr eglwys, trwy ei hoffeiriadon, ydyw'r offeryn y mae Duw wedi sefydlu ar y ddaear i achub dynioliaeth syrthiedig: dyna unig ddinas noddfa pechadur rhag y llid a fydd. Tufewn i furiau hon y mae'r adyn gwaethaf yn ddiangol; tuallan iddi y mae'r gwron mwyaf dewr a didwyll, ac hunanaberthol, heb obaith ac heb Dduw yn y byd. Yn awr, y mae'r rhesymeg hyna yn anffaeledig, a'r canlyniadau oddiar y cynseiliau yn anocheladwy. Ymddengys i'm deall gwan I, yn ol pob rhesymeg a chyssondeb, mai yn Eglwys Babyddol Rhufain y dylai y rhai hyn fod, neu o leiaf mewn corlan ar eu pen eu hunain, i gredu a chyflawnu eu seremoniau fel y b'ont yn dewis. Ond y mae swyngyfaredd rhyfedd yn achosi iddynt lynu wrth yr ystad, ac yn hytrach nag ymddidoli a dyfod allan, a byw yn heddychlawn mewn cyfrinach ysprydol ar dir cerrygog a diffrwyth Annghydffurfiaeth, dewisant gweryla ac ymgyfreithio o fewn gorlan frasderog yr Eglwys Waddoledig, ac y mae esgymmuno a charcharu yn canlyn. Y mae cyfeillion y Parch. Bell Cox, gyda ni yn Liverpool acw, yn edrych ar ei garchariad fel erledigaeth o achos cydwybod. Yn ol fy marn ostyngedig a dibwys fy hun, nis gallaf edrych ar y mater yn yr olwg hon, oblegyd nid am losgi canwyllau a phenlinio, a gwisgo *chasubles* a *stoles*, a rhyw ddillad offeiriadol gorwych, a chario'r groes mewn gorymdeithiau urddasol, a throi tua'r Dwyrain, neu grymu hyd y llawr, pan y mae Crist yn cael ei enwi yn y credo, y mae dedfrydu i garchar yn bod, o herwydd y mae'r pabyddion yn gwneyd yr oll o honynt heb droseddu unrhyw gyfraith yn ngolwg y byd. Nid am wadu Duwdod Crist, pechod gwreiddiol Ysprydoliaeth yr Ysgrythyrau, uffern dragywyddol, y proffwydoliaethau, a'r gwyrthiau, y mae esgymmuno yn cymmeryd lle, o herwydd mae'r Undodiaid yn dal yr opiniynau hyn mewn llonyddwch, *ond* am fod y naill bethau yn cael eu cyflawnu, a'r daliadau ereill yn cael eu gwadu oddifewn i sefydliad crefyddol *neilldaol* ag sydd o dan reolaeth a dysgyblaeth uniongyrchol yr ystad yn ei holl wasanaeth, a'i holl swyddogion wedi rhoddi cydsyniad i'r credoau, ac wedi cymmeryd llw o ufudd-dod i'r esgobion. Ymddengys i mi, gan hyny, **fod rhai yn cael eu hesgymmuno, ac ereill eu carcharu am ddysgu**

pethau yn groes i'r hyn maent wedi addaw ddysgu, ac am beidio ymostwng i gynghor eu blaenoriaid ysprydol, ac yn troseddu y gyfraith maent wedi addaw ufuddhau. Pa un a ydyw yn iawn i'w cospi yn y modd hwn, sydd bwnc arall hollol wahanol, ac y mae amser yn pallu i'w drin. Dywedais fod canlyniadau y blaid hon yn anocheladwy oddiar y cynseiliau. Ond mae'r oes bresenol mor hyf, ac yn beiddio chwilio i mewn i wirionedd y cynseiliau, ac yn eu chwalu ar led fel us o flaen y gwynt. Gomedd gredu fod y babau newydd eni yn hollol lygredig, ac yn addas yn unig i balmantu uffern, os heb dderbyn ychydig ddyferynau o ddwfr oddiar fys cyssegredig offeiriad—fod nifer fechan o fodau dynol wedi eu hethol i wynfyd tragwyddol, a'r mwyafrif wedi eu tynghedu i'r tân anniffoddadwy oddiar y cynghor boreu rhwng y tri yn un draw yn nhragwyddoldeb. Er fod y credoau yn dysgu felly, y mae iaith arall a gwell gan y galon a'r rheswm dynol.

Yn ddall na rodia dim is nen, na chollir dim un bywyd byth,
Na theflir dim i ddamniol nyth pan ddygo Duw ei waith i ben.

Y mae tân a brwmstan tragwyddol a'r pwll diwaelod yn ysmotyn rhy ddu, rhy farbaraidd ar gymmeriad y Tad o'r Nef i'r teimlad dyngarol a'r gydwybod oleuedig allu ei ddyoddef heddyw. Fel y lleuad ar ei gwendid, y mae'r hen gredoau yn rhoddi llai-lai o oleuni i bercrinion nag oeddent. Y mae yspryd yr oes a lledaeniad gwybodaeth yn llym geryddu ofergoeliaeth a chulni, a rhagfarn, ag ydynt yn llochesu etto mewn llawer cilfach dduwinyddol. Y mae'n llawn bryd i athrawiaethau yr oesoedd tywyll gael eu halltudio i blith yr eiddynt eu hun —yr ystlumod a'r wadd—gyda dewiniaeth a'r tylwyth teg, ysprydion drwg, gallu offeiriadaeth i felldithio â breintiau dwyfol breninoedd y ddaear. Llawer credo unwaith yn llawn bywyd a nerth ysprydol pan eu galwyd i fodolaeth, erbyn heddyw fel esgyrn sychion Eseciel, heb ddim o yspryd y Duw byw ynddi. Fel hen gestyll cedyrn Cymru un amser, yn fyw o farchogion gwrol, arwyr dewrion a gwladgarwyr twymgalon yn barod i osod eu bywydau i lawr dros eu rhyddid a'u gwlad, heddyw yn lleoedd annghyfanedd, dim ond muriau llwydion a dadfeiliedig.

"Ar ddallhuan fudan fydd
Yn gori yn eu magwyrydd.
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei gwych barlyrau."

Nid ydynt yn awr yn addas breswylfeydd nac yn amddiffynfeydd o nemawr werth i wrthsefyll ymosodiadau magnelau nerthol *mitralleuse* ac *armstrong guns* y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly ymddengys em hen ysgerbydau—credoau yr oesoedd a aethant heibio, yn ddyddorol iawn fel cofadeiliau o ymdrechion y tadau a seintiau yr Eglwys Gristionogol i osod eu drychfeddyliau am Dduw a dyn, Crist a'r Beibl, am y bywyd hwn a'r byd mawr anfarwol, mewn iaith bendant a phennodol. Ond y maent *out of date* erbyn heddyw; nid ydynt yn ddigon

cynnwysfawr i allu mynegu i eglur feddwl llawnach a gobeithion goleuach yr oes bresenol. 'Dyw hen ysguboriau eich teidiau ddim yn ddigon helaeth i gynnwys cynnyrch y tir y dyddiau hyn, os byddwch yn eu hachlesu a'u gwrteithio yn ol egwyddorion diweddaraf gwyddoniaeth amaethyddol, ac yr ydych, fel dynion rhesymol, yn eu tynu i lawr, ac adeiladu rhai mwy. Yr un peth y mae cynnyrch y meddwl dynol, yn ymeangu ac yn tyfu yn ormod o faint i'w wisgo a'i grebachu yn nillad ei fabandod. Hawddach digoni newyn corfforol ar gibau moch nac ymdrechu porthi gofynion y meddwl ymchwilgar ar esgyrn sychion hen gredoau.

(I'w barhau.)

NODYNAU GWASGAROG.

Fel hyn y dywed Morien mewn llythyr yn y *Weekly Mail* am Awst 13. Gwell i Morien edrych na ddaw John ar ei war.—"Mae llawer gormod o 'Lyfr yr Eglwys' yn cael ei bregethu y dyddiau hyn. Nid oes *doubt* yn y byd nad oes llawer yn ein gwlad yn cyfrif enw i lawr ar y llyfr fel tocyn ar y gledrffordd ysprydol i orsaf Paradwys! Mewn gwirionedd, gweithredoedd *da* ydynt y tocynau tuag yno, a gweithredoedd *drwg* y tocynau i 'dwll i bwci' tragwyddol. Beth bynag, dyna mae duwinyddiaeth yn ei ddysgu."

FE DDYWED TENNYSON

"Fod mewn amheuaeth onest fwy o ffydd
Nag sydd yn hanner holl gredöau'r dydd."

Nid yw hyny yn awgrymu fod amheuaeth yn beth i'w geisio a'u garu. Nid yw amheuaeth yn bechod, efallai; nid yw chwaith yn rhinwedd. Dichon ei fod yn anocheladwy i'r ymofynydd gonest; ond peth yw, pan ddel, y dylid ceisio ei wynebu a'i orchfygu. Mewn credu mae nerth; mae tuedd mewn colli ein ffydd i barlysu yr holl alluoedd. Yr oedd Theodore Parker yn arfer dywedyd fod dau eilun dduw yn ei oes ef, sef Iesu Grist a'r Beibl. Os dygwydd i amheuaeth o'n tu ni dynu i lawr yr Iesu a'r Beibl oddiar y golofn anrhydeddus yr arferent sefyll arno, camsynied fyddai i ni eu bwrw fel eilunod y cynoesoedd i'r ystlumod a'r wadd. Ein dyledswydd fydd ceisio am y lle priodol iddynt, a rhoi iddynt y parch dyledus. Os gwnawn hyny, fe geir fod y Beibl etto "y llyfr goreu," a'r Iesu yr Athraw a'r Arweinydd goreu trwy fyd o amser i'r bywyd mawr ysprydol. Os dygwydd amheuaeth

dd'od mewn perthynas i dragywyddoldeb "twll ŷ bwci," casgliad ffol fydd i ni oddiwrth amheuaeth tragwyddoldeb cosp, i amheu cosp yn gyfangwbl. Mae athrawiaeth y medi yn ol yr hau yn wir yn mhob cyssylltiad heddyw, ac y mae'n debyg o barhau felly byth. Ni ellir byth dadgyssylltu pechod oddiwrth ei gaulyniadau. Dyma'r ddedfryd, gwir heddyw, gwir yfory, gwir byth; "y bydd llid a digofaint, trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg; yr Iuddew yn gyntaf, ac i'r Groegwr hefyd." S. N. S.

Fel hyn y dybenodd yr Anrhydeddus W. E. Gladstone ei araeth ar y "Reform Bill" yn Nhŷ y Cyffredin, yn 1866:—

"Nis gellwch ymladd yn erbyn y dyfodol. Mae amser o'n tu ni. Mae y galluoedd mawrion cymdeithasol ydynt yn symmud rhag blaen yn eu nerth a'u hardderchogrwydd, y rhai nad yw cynhyrfiadau ein dadleuion ni ddim am foment yn eu rhwystro na'u haflonyddu—mae y galluoedd mawrion cymdeithasol hyny yn eich erbyn; maent wedi eu trefnu o'n tu ni; a'r faner a gariwn ni yn y frwydr hon yn awr, er y dichon iddi am dro ymollwg uwch ein penau gogwyddedig, etto yn fuan hi a gyhwfana yn llygad y nefoedd, ac fe'i dygir gan ddwylaw cedyrn pobl unedig tair teyrnas, fe ddichon nad i fuddugoliaeth hawdd, ond i fuddugoliaeth sicr, ac un nad yw yn mhell iawn."

Onid yw y geiriau yn ymddangos yn bwrpasol iawn i amgylchiadau y dydd heddyw?

CYSTADLEUAETH Y DEG EMYN.

Gweler tudalen 188 o'r rhifyn diweddaf. Fe faddeuir i ni am ddychwelyd unwaith etto at y pwnc hwn. Daeth deg enw newydd i law cyn i rifyn Awst fyned allan, a bydd yn ddyddorol i weled pa mor bell mae y fantol wedi troi. Gyda 42 o ymgeiswyr, penderfynir y "Deg Emyn Dewisol" fel hyn:—

96, 140, 143, 146, 176, 201, 211, 337, 341, 350. Wrth hyn, gwelir fod 9, 67, 181, 210, wedi syrthio allan o'r dewisolion o'r blaen. Saif y pleidleisiau yn awr fel hyn:—16 i 140; 13 i 96, 147; 12 i 350; 11 i 201, 211; 10 i 337, 341; 9 i 143, 176. Dyma'r deg. Rhoddwyd 8 i 14 ac 181. Dyna'r deuddeg. Rhoddwyd 7 i 9, 212; 6 i 5, 55, 67, 92, 193, 210, 265; 5 i 31, 117, 118, 120, 156, 299, 374; 4 i 15, 27, 39, 59, 70.

O'r "*Deg* Emyn Dewisol" mae X. wedi spotio *saith;* J.H.D., W.H., D.E.J., chwech; L.H., J.L., pump; E.J., S.E., T.J., S.D., A.G.J., T.H.T., E.D., pedwar. Saith X. ydynt 140, 143, 146, 211, 337, 341, 350.

Mae Morien yn adrodd stori ddoniol am un Thomas Morgan, yr hon a gafodd ganddo dranoeth i gyflafan y Tynewydd, Cwm Rhondda. Dyma eiriau Morien:—"Pan yn ei holi am ei brofiad ef a'i gyfeillion, pan wedi eu carcharu gan y dyfroedd, ac wedi iddo adrodd wrthyf am y canu, sef 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonau,' &c., gofynais, 'A fuoch chwi yn gweddio. Tomos?' 'Naddo I'n siwr,' ebe efe; 'oud gweddiodd Edward Gelynog lawer; ac yn wir (gan droi at ei fab deuddeg oed), yr oedd y bachgen bach yma yn cadw cymmaint o fwstwr ag Edward bob blewyn!' 'Paham,' gofynais, 'nad oeddech chwithau hefyd yn gweddio?' 'Wel,' eb efe, ''dwy' I ddim gyda chrefydd, ych chwi'n gwel'd!'"

Yn *Emynau y Cyssegr*, eiddo Mr. Gee, rhif 29, pennill 5, awdwr, y Parch. W. Rees, D.D., dywedir fel hyn am Jehofah:—

"Gwna iddynt lamu megys llo
Liban a Sirion hefyd,
Neu megys llwdn unicorn,
Gan faint eu horn disyfyd."

Nid ydyw y pennill, a dywedyd y lleiaf, yn awgrymu dim llawer am chwaeth Mr. Gee na Dr. Rees; ac yn sicr, y mae yn datgan syniad am y Goruchaf sydd yn ymddangos hytrach yn fabanaidd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ni allwn ni ddim llai nâ chydymdeimlo â Mr. Spurgeon yn ei ofid dwys am fod yr "Undeb Bedyddiol" yn *driftio* i ffwrdd oddiwrth ffydd y tadau. Hyny yw, mae yn ddrwg genym am ofid Mr. Spurgeon, am y credwn ei fod yn ddyn da ac wedi gwneuthur lles mawr yn ei ddydd; etto, yr ydym yn falch o'r arwyddion fod *peys* hen babell John Calvin yn rhoddi ffordd, a bod y Bedyddwyr, o leiaf yn Lloegr, yn ceisio am noddfa newydd. Yr athrawiaeth sydd yn blino Mr. Spurgeon yw "Tadoldeb cyffredinol Duw," ac y mae yn cael sail digonol i'w ofid mewn pregeth a roddwyd yn ddiweddar gyda chymmeradwyaeth yn mhrif bapyr yr enwad—y *Freeman*—pregeth sydd yn llawn o'r heresi crybwylledig. Dichon y bydd yn gyssur i Mr. Spurgeon wybod fod yr Undeb yn Nghymru yn parhau hyd heddyw yn ffyddlon i hen dduwinyddiaeth yr oesoedd tywyllion, a'i fod wedi cyhoeddi banau yr hen ffydd yn eu purdeb hyd y nod y flwyddyn hon.

HOSEA. xiv. 5—12, 11.

Mor dawel mae oriau y nos yn dynesu,
Yn fwyn fel addewid, fel gweddi'n llawn hedd;
Dan d' edyn, O Dduw, boed in' oll gael cysgodi,
Trwy weddill ein taith yn y byd hyd y bedd.

Mae y nef, fel y nen lâs, i gyd yn agored,
  Trwy y pyrth gogoneddus, dos, f'enaid, i fewn ;
Y taw a gwên felus ei gariad yw'r drwydded—
  De'wch, bawb ; mae'n gwahodd, O de'wch, bawb, ato'n ewn.

Awn ato â'n cais am ryddhad o'n doluriau ;
  Mae gwlithoedd y nos yn gwellhau clwyfau'r dydd ;
Awn ato yn teimlo mor fach gwaith ein dyddiau ;
  Am fu yn ddiolchgar, a'n cais am a fydd.

O cadw ni, Arglwydd, rhag pob rhyw ddrwg weithio ;
  Rho'th nerth yn ein gwendid, rho'th help gyda'n gwaith ;
A phan fo'n daearol ddydd drosodd, O dyro
  Fod fory y nefoedd yn ben ar ein taith.

T. T. Lynch.

Y mae gohebydd serchog a charedig yn ysgrifenu atom fel hyn :—
"Dywedwch yn eich llythyr eich bod yn 'awyddus i foddio'r gohebwyr.' Gallwn feddwl, pa fodd bynag, eich bod am foddio rhai o honynt, cyn byth y buasech yn caniatau ysgrif fel 'Treulio'r Gwyliau,' gael ymddangos mewn misolyn fel ag ydyw'r Ymofynydd. Darllenwch a phwyswch yr ysgrif, 'Treulio'r Gwyliau,' yna, gyda barn onest, credaf y dywedwch mai nid teilyngdod yr ysgrif sydd wedi sicrhau ei lle yn yr Ymofynydd."

Yr oedd y cyfaill hwn wedi anfon i ni erthygl yn adolygu'r erthygl ar "Yr Iwbil," yn rhifyn Gorphenaf, ac yn dysgwyl iddi gael ymddangos "yn y rhifyn nesaf," o herwydd ei fod ef "am hyny." Methodd ymddangos, a dyma lythyr yn fuan yn gofyn paham ; a buom mor rhyfygus a cheisio esponio y paham nad ymddangosodd yn mis Awst, a phaham yr ofnem nad ymddangosai yn mis Medi, gyda'r canlyniad o gael derbyn y cerydd uchod. Yr ydym wedi golygu yr Ymofynydd yn awr am ddeuddeg mlynedd, a chredwn nad oes neb yn fwy ymwybodol mor ddiffygiol yw'r gwasanaeth na ni ein hunain ; na neb yn fwy parod i gydnabod ein bod wedi gwneuthur rhai camsyniadau. Nid yw y 12 mlynedd diweddaf wedi ein gwneuthur yn fwy hunanol ; y mae digon o ohebwyr caredig wrth law i gadw y golygydd "yn ei le priodol," fel ag iddo adnabod ei *size*.

Os nad all Undodiaid fyned i'r nefoedd ar gyfrif eu cyfiawnder eu hunain, y mae'n bossibl iddynt gael maes helaeth i'w weithio allan yn y byd presenol. Cyffesir gan yr *Interior*—un o bapyrau Chicago—"fod adfywiad o gyfiawnder wedi cymmeryd lle yn Chicago pan y gosodwyd y Maer Roche (Undodwr) yn ben ar lywodraeth y ddinas."

TRINDOD AC UNDOD.

"Ac," meddai John Jones, yn wresog iawn, "nid ydw I erioed wedi deall pam yr ydych yn anfoddlawn cael eich galw yn Sosiniaid, na pha hawl neillduol all fod genych chwi i'r enw Undodiaid. Yr ydw I'n gymmaint o Undodwr ag ydych chwithau, ac yn Drindodwr ar yr un pryd." "Sut felly?" ebwn ninau, "ymddengys hyny i mi yn groes-ddywediad." "Yr wyf yn Undodwr am fy mod yn credu mai un Duw sydd, ac yn Drindodwr, nid am fy mod yn credu mewn tri Duw, fel y mynwch chwi awgrymu, yr hyn nid yw yn wir; ond am fy mod yn credu mewn un Duw yn hanfodi 'yn dri pherson." "Ymddengys i mi," meddwn inau, "eich bod yn camesponio geiriau. Yr wyf fi yn Undodwr, nid yn unig am fy mod yn credu mewn un Duw, ond am fy mod yn credu hefyd ei fod yn hanfodi mewn un person, a dyma ystyr Undodwr, un yn credu yn undod yr hanfod Dwyfol. Nid wyf yn gallu gweled sut y gallwch fod yn Undodwr ac yn Drindodwr ar yr un pryd." "Nid wyf fi yn credu mewn tri Duw." "Nid wyf finau 'chwaith. Yr wyf yn credu mewn un Duw, un person, un ewyllys, un gallu mawr. Yr wyf yn Undodwr felly, ac yn credu mewn unohaeth yn yr hanfod, os gallwn ni wybod rhywbeth am yr hanfod, am *arithmetic* yr hanfod. Y pwnc mawr yw, ai un amcan, un bwriad sydd?—felly un Duw, un Tad, un Cariad tragwyddol sydd. Nid wyf fi yn Sosin am nad oes a fynwyf â Sosinus. Nid yw Sosinus yn atebol am fy ffydd I. Nid efe yw fy athraw I, ond Crist. Nid ei gredo ef yw fy nghredo I, a phaham felly y gelwir fi yn Sosin, oddieithr er mwyn arddangos yr yspryd sydd yn cymhell. Cred yr Undodwr yw, mai un gwrthddrych addoliad sydd—y Tad. Nid hyny oedd cred y ddau Sosinus. B.C.D.

EFALLAI fy mod I wedi methu deall cystadleuaeth yr emynau—pa un ai dewis y rhai oeddynt wedi gweithio ar un pwnc, neu bigo'r llyfr drwyddo. Os mai pigo drwyddo, gellid cael rhai llawer amgenach nâ'r rhai a bigwyd. Ceisiais I bigo deg, a rhai Iolo ddewisais I bob un oddieithr un neu ddwy. Buasai yn o chwithig gan yr hen dadau sydd ar y ddaear i weled Iolo ar ol. Clywais I Mr. James, Gellionen, yn dweyd fod salm Iolo ar ol ei bregethau goreu ef yn eu codi yn uwch fyth. Dywedai Daniel Ddu y dylai llythyrenau salmau Iolo gael eu *gilto* ag aur. Yr oedd hwnw yn deall synwyr ac yn fardd. Nid yw proffwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun. Yr ydych chwi yna er ys blynyddau am gymmysgu â llyfr Iolo, ond yn uwch mae e'n myned mewn cystadleuaeth. Efallai fod rhai â gwell *map* ganddynt nâ Iolo o'r byd nesaf, ond y mae swn Calfinaidd iawn ganddynt yn yr Iorddonen. Mae Iolo yn dweyd fod y cyfiawn yn barod yn y nef yr ochr hon. Cystadleuwch chwi ryw lyfr â llyfr Iolo, a chewch weled pwy fydd a'r *majority* gan y rhai a welsant ei lyfr. Gosodwch y llinellau hyn yn YR YMOFYNYDD, er gweled pa un ai eu hergydio neu eu cymmeradwyo â gânt. D. JONES, *Castell, Pencarreg.*

GWASANAETH AGORIADOL.

Defnyddiwyd y gwasanaeth canlynol ar agoriad capel newydd Caerdydd. Dywedir mai y Parch. Jenkin Lloyd Jones yw yr awdwr, a'i fod wedi ei gyfansoddi ar gyfer agoriad ei gapel newydd ei hun yn Chicago :—

Gweinidog.—Cyflwynwn y capel hwn i'r ymchwiliad difrifol am wirionedd. Caffed ei ddrysau fod yn agored yn wastad i ymofynwyr am y gwirionedd, a boed groesaw bob amser i'r rhai sydd yn llefaru y gwirionedd.

Y Gynnulleidfa.—I wasanaeth y gwirionedd sydd yn rhyddhau y cyflwynwn y tŷ hwn.

Gw.—Cyflwynwn y tŷ hwn i grefydd cyfiawnder. Bydded yn arweinydd i'r crwydriaid, yn nerth yn awr profedigaeth, ac yn oleuni i'r rhai yn eistedd mewn tywyllwch.

Cyn.—I'r gwasanaeth hwnw o gyfiawnder sydd yn creu calonau glân, ac yn rhoddi prydferthwch sancteiddrwydd, y cyflwynwn y tŷ hwn.

Gw.—Cyflwynwn y tŷ hwn i grefydd cariad. Na fydded un dyn yma yn ddyeithr. Yma na chaffed y gorchymyn newydd a roddes yr Iesu byth fyned yn hen, "Cerwch eich gilydd."

Cyn.—I gymdeithas calonau, Efengyl Brawdoliaeth Gyffredinol, ac i'r dygiad o feichiau y naill y llall, y cyflwynwn yr adeilad hwn fel ein Cartref Eglwysig.

Gw.—I adgof ein hanwyliaid, i amddiffynwyr cyfiawnder y genedl, i broffwydi enaid yr holl oesau, iddo Ef a fu farw ar y Groes mewn cariad at Dduw a chariad at ddyn, cyflwynwn ein tŷ.

Cyn.—I sancteiddrwydd rhwymau teuluaidd, i anrhydedd ein gwlad, i Gristionogaeth fydd byth yn tyfu, i achos crefydd gyffredin y cyflwynwn y tŷ hwn.

Gw.—Cyflwynwn y tŷ hwn i addoliad. Yma ceisier, caffer, teimler y Presenoldeb hwnw sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynom oll, a bydded i'w enw mawr gael ei enwi—Duw, ein Nefol Dad.

Cyn.—I barch, i ddiolchgarwch, y cyflwynwn y tŷ hwn. Ac i Dduw y byddo'r deyrnas, y gallu, a'r gogoniant. Amen.

Gw.—Caffed plant bychain yma eu harwain i ffyrdd doethineb, i lwybrau heddwch. Caffed y canol oed eu hadgofio am y pethau hyny a barhânt. Ac yma troed yr hen eu camrau, er cael gorphwysfa Duw. Dyger y plant yma i'w cyssegru. Caffed addunedau priodasol yma eu sancteiddio. Ac yma caffed cysgodau angau eu dyrchafu.

Cyn.—"Gadewch i blant bychain ddyfod atat fi, canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd," "Duw sydd yn gosod yr unig mewn teulu." "Y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau na welir sydd dragwyddol." A chan y bedd ni fydd un gallu mwy, canys "angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth."

Pawb.—O Dad, sancteiddia y tŷ hwn, fel y byddo i ni ac i'n plant yn Dŷ Dduw, ac yn borth i'r nefoedd. Trefna, O Arglwydd, waith ein dwylaw—ie, trefna waith ein dwylaw. Amen.

Yn mynwent Howton, gerllaw Caergrawnt (*Cambridge*), y mae y beddargraff hynod a ganlyn :—

Bold infidelity! turn pale and die,
Beneath this stone four infants' ashes lie:
Say, are they lost or saved?
If death's by sin, they sinned, because they're here;
If heaven's by works, in heaven they can't appear.
Reason, Ah! how depraved!
Reverse the sacred page, the knot's untied—
They died for Adam sinned, they live for Jesus died.

—*Rev. Mr. Robinson, Baptist Minister, Cambridge.*

Anffyddiaeth hyf! diflana, gwywa'n ddim,
Is y maen hwn llweh pedwar maban sydd:
A gollwyd neu a gadwyd hwy, d'wed im'?
Os marw am bechu sydd, pechasant hwy
Am ou bod yma'n fud; os nef sy am waith,
Nef chwaith ni chant. O Reswm, p'le mae'th ryan?
Tro, chwilia'r Dwyfol Air, daw'r pwnc yn olau wiw—
Am bechu Adda marw maent, am farw Iesu'n byw.

—*Cyf. Trevor.* *O'r Gwladgarwr.*

UNDER THY WINGS.

"Tra b'wyf dan dy nodded, fy Ner," &c.

While 'neath thy protection, O Lord,
My all I surrender to Thee;
With feelings in sweetest accord,
My life is a blessing to me:
I feel that my conscience is clear,
When following the light on thy ways;
And knowing the joy that is near,
My heart is attuned to thy praise. — *Lois Mengamny.*

TREULIO'R GWYLIAU.

(Parhad o dudalen 187.*)*

Sair y Borth ar y Cardigan Bay ac ar y Cambrian Railway, ac mewn man cyfleus am *short excursions*. Dyfod yma, fodd bynag, wnaethom ni i orphwys ac nid i weithio, ac felly gadawn i ereill esgyn Pumlumon, a Chader Idris, y rhai nid ydynt yn mhell; digon fydd ganyf fi edmyga yn y pellder. Adeg yr hin boeth ydyw adeg ein harosiad ni

yma, ond y mae awel hyfryd yn chwythu dros y mor arnom trwy yr amser. Mae yr ymolchi yn y mor yn hyfryd iawn ar dywydd fel hyn, ac y mae'r traeth tywodog, gwastadlyfn, yn ffafriol iawn i'r perwyl. Dywedir fod y traeth tua 4 neu 5 milldir o hyd. Nid hawdd eael gwell man i blant, i ymddyfyru mewn perffaith ddyogelwch, fel nad oes achos pryder i dadau a mamau pan fyddo'r rhai bach o'r golwg.

Pentref bychan yw y Borth, mewn cymhariaeth; ond y mae yma un *hotel*, ac ynddo 50 o welyau, ac fe ellir derbyn lluaws mawr o ymwelwyr yn y lle. Tawel, ar y cyfan, ydyw hi yma, ac fe ranir yr *excitement* rhwng y traeth a'r *railway station.*

Saif y pentref hefyd ar ymyl Cors Fochno—lle enwog am amryw ystyriaethau. Yr oedd "Llyffau Cors Fochno" yn enwog mewn hynafiaeth. Gweler Iolo MSS.—"Cafwyd gwybod pwyr hynaf o greaduriaid yn y byd, sef ydynt, Eryr Gwernabwy, a Llydd Rhedynfre, a Gleisiad Llyn Llifon, a Mwyalch Cilgwri, a Llyffau Cors Fochno, a Dylluan Cwm Cawlwyd, ag nid oes namyn y Grwn Tir yn hŷn nag wynt o bethau a gawsant ddechreuad yn oes y byd hwn." Yr ochr arall i'r Gors, ac ar ein cyfer, y mae pentref Taliesin, ac yn nghesail y bryn uwchlaw y mae Bedd Taliesin, lle y dywedir fod Pen y Beirdd wedi ei gladdu, rhyw 1300 o flynyddau yn ol. Ychydig gyda milldir oddiyno y mae Talybont—enwog am weithfaoedd plwm. Gweithid plwm hyd yn ddiweddar yn Taliesin; ond fe ddywedir fod y *tidal wave* wedi dinystrio'r gwaith. Nid wyf yn gwybod sut y gallai hyny fod. Hwnt yn y cyfeiriad hwn y mae Pumlumon,—sef yn agos y tucefn i Taliesin.

Ar y traeth y mae bonion coed, wedi hen bydru, gweddillion fforestydd a dyfent yn oesoedd pellenig y gorphenol; ond pa mor bell, nid oes neb efallai a wyr. Mae y môr yma yn ennill yn raddol o hyd, ambell i flwyddyn yn gyflym. Sonia llafar gwlad am Gantref y Gwaelod yma, a nodir ar draeth y Cardigan Bay amryw sarnau neu olion heolydd a arweinient gynt i wlad ffrwythlon a chyfoethog; tra mae'r awdurdodau dacaregol yn tystio mai ffurfiadau naturiol yw y sarnau. Gwnaeth ystormydd y gauaf diweddaf lawer o ddifrod yma, a dywedid mai dyben yr Eisteddfod fawr a gynnaliwyd yn ystod ein harosiad oedd sicrhau ychydig arian i geisio attal ymosodiad y môr. Nid oedd *profit* yr Eisteddfod gymmaint ag y dysgwylid, am fod llawer o'r arian wedi syrthio rhywle, meddai dynion, rhwng llaw a llawes.

Yr oedd tiroedd helaeth a threfydd poblog un amser lle mae tonau y Cardigan Bay yn rhodio heddyw, medd yr hen weddol. Y traddodiad yw fod y trigolion, yn gweled dynesiad graddol y môr, wedi gosod mor-furiau a llifddorau i fyny, fel yr oedd dyfroedd yr afonydd yn gallu ymarllwys i'r môr, tra'r oeddynt yn wrthglawdd effeithiol i gadw y mor allan ar y llanw. Ond un noson, darfu i Seithenyn—dyma enw y ceidwad ar yr adeg dan sylw—wrth gwrs, yr oedd yn feddw—naill ai annghofio eau y llifddorau, neu eu hagor eu hunan. Nad pa un, yr un peth fyddai y canlyniad, gollwng y dylif dros y gwastadedd, boddi'r trigolion, a dinystrio'r trefydd. Nid ydys wedi penderfynu

amser y galanasdra hwn ; ond brenin olaf yr ardal oedd Gwyddno, yr hwn sydd wedi cyhoeddi lluaws o felldithion ar ben Seithenyn ; nid ydys yn sicr am rif y melldithion, ond cu bod rhwng 460 a 520. Yn ol ereill, yr oedd amser y dygwyddiad rhwng y flwyddyn 460 a'r flwyddyn 520 ; rhywbryd tuag amser y brenin Arthur. Y mae gan feddwdod lawer i ateb am dano. Nid oes dim sut beth a chael gan ddynion i gymmeryd rhybudd.

Mae y llinellau hyn yn aros ar lafar gwlad :—

"Ochenaid Gwyddno Garanhir,
Pan droes y don dros ei dir."

Ac fe geir cyfeiriad at yr amgylchiad yn y triawd a ganlyn :—"Tri charnfeddwon Ynys Prydain : Geraint feddw, Brenin Essyllwg, a losges yn ei feddwdod yr holl ŷd yn mhell ac yn agos hyd glawr gwlad, ac o hyny dyfod newyn bara ; ail, Gwrtheyrn Gwrtheneu, a roddes Ynys Daned, yn ei ddiawd, i Hors, am —— â Rhonwen ei ferch ef, a rhoddi hawl hefyd a wnaeth efo i'r mab a enid o hyny ar Goron Lloegr ; trydydd, Seithenyn Feddw, ab Seithyn Saide, brenin Dyfed, a ollyngwys, yn ei ddiawd, y mor dros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yno, lle, cyn hyny, y caed un dinas dref ar bymtheg, yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerlleon ar Wysg ; a chyfoeth Gwyddnaw Garanhir, brenin Ceredigion, ydoedd Cantre'r Gwaelawd ; ac yn amser Emrys Wledig y bu hyny ; a'r gwyr a ddiangasant rhag y bawdd hyny a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd ereill nad oeddent gyfanedd cyn no hyny." Am hanes cyflawnach, gweler "Meyrick's History of Cardiganshire."

Cawsom ni drigolion y Borth yn serchog a charuaidd, ac megys yn awyddus i wneuthur yr ymwelwyr yn gyssurus. Yr oedd ambell i un yn dra doniol a siaradus. Yn ymyl y stesion, un diwrnod, gofynodd hen wr parlysig i mi yn dra disymwth, ac heb fath yn y byd o rybudd, "A ydyw Duw yn madden pechod?" "Gobeithio ei fod," meddwn inau. "O nad yw," ebe'r hen wr mewn tôn fuddugoliaethus, "nid yw Duw ddim yn madden pechod." Un prydnawn, pan allan, daeth cerbyd bychan heibio i ni yn llawn plant, ac oll yn llawen ar ol eu gwyl de—y plant bychain—plant yr Ysgol Sul yn canu "Haleluia," a'r gyriedydd yn canu *bass* gyda hwy, ac yn curo'r donci nerth ei fraich â phastwn. Yr oeddym yn amheu a oedd y donci yn teimlo haleluia, neu yn meddwl yn uchel am *good feeling* aelodau'r Ysgol Sul.

Ar y Sul aethum i gapel y Methods, y Sul cyntaf, clywais un Davies o gymmydogaeth Aberteifi. Yr oeddwn yn teimlo fod tipyn yn ormod o'r gwaed yn yr emynau, ond yr oedd y bregeth ar y cyfan yn dra boddhaol. Testyn y bregeth oedd Hebreaid viii. 10. Yr oedd cryn dipyn o'r "show off" ynddi—*artificial and strained*—yr wyf wedi sylwi o'r blaen fod y Methods yn hoff o fod yn amlieithog. Welais I ddim argoel nad oedd trigolion y Borth yn deall yr hen Gymraeg yn weddol, ac felly nid oeddwn yn gweled yr angen o'r *suntheke* a'r *diatheke*, nac

i drespasu ar brif ffyrdd a chaeau Saesneg ein hanrhydeddusaf frenines. Yr oeddym yn caru ei glywed yn gosod pwys ar garacter fel elfen bwysig mewn crefydd. Y Sul canlynol yr oedd y pregethwr wedi newid, fel y mae'r arfer gyda'r Methods. Yr oedd gan hwn ddetholiad mwy hapus o'r emynau *i'm tyb I*, a sylwais ei fod yn gadael pennillion allan o emyn os yn cynnwys y gair gwaed. Beth oedd hyny yn awgrymu? Yr oedd gan hwn etto bregeth werth ei gwrando, er fod rhywbeth yn aflafar weithiau yn y traddodiad. Ni ddywedodd 'e ddim am bwysigrwydd y pum' pwnc, ond llawer am bwysigrwydd byw yn iawn. Yr oedd y "right ring" yn y ddwy bregeth; ond yr oedd prinder yr Amenau yn ganfyddadwy. Yr oeddym yn caru y sylwadau *special* mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sul, ond yn barnu fod argoelion llacâu ymdrech yn bod yn rhywle. Gwasgai yn ddifrifol ar yr hen bobl i gwympo i fewn i'r cynllun newydd o ddosparthu yr ysgol yn *standards*. *Idea* dda ydy hona, ac ni fyddai niwed pe cymmerem ninau hi i fyny. Rhaid yw wrth fwy o ymgais i gyfaddasu'r ysgol yn ei holl gangenau at ofynion newydd oes newydd. Oes y *standards* ydyw'r un bresenol. S.N.S.

Manion a Hanesion.

AFON CERDIN.

Buddugol yn Bwlchygroes, Llandyssul.

O fynwes yr "Wstrws" fawnog,—rhedeg
Wna'n ffrydiau crisialog;
Cerdin glau, rhwng creigiau crog,
Una â "Theifi" enwog.

Cael o'u rhin mae'r melinydd,—er malu
I'r miloedd flawd bwydydd;
Er gwau, rhydd ddwr i'r gwehydd,
Rhanu i bawb riniau bydd.—*Bartimeus.*

Dywedodd y Parch. Henry Simon o Lundain yn ddiweddar, y gwnelai hwnw wasanaeth i'r byd, yr hwn a wnai gartio i ffwrdd y cyfundrefnau ydynt wedi eu crugio ar draws y groes.

Mae rhai yn gwybod, yn unig er mwyn gwybod; 'rhai yn gwybod, er mwyn i ereill gael gwybod am danynt; a rhai yn gwybod er mwyn ymarfer yr hyn y maent yn ei wybod. Yn awr, am y cyntaf, cywreinrwydd yw; yr ail, gwag-ogoniant yw; a'r trydydd, dyma ddyledswydd efengylaidd. Dengys yr olaf y Cristion cyflawn; nid yw y lleill heb hwn ond yn dangos y Cristion o fewn ychydig.

Wickliffe, Wesley, Whitfield, hand in hand,
In common cause unite a holy band;
Then let no party scheme the three divide,
But unity and love the Bread of Life provide.—*Pwy?*

Da genym ddarllen fod dydd agoriad capel newydd Caerdydd wedi bod yn ddydd o lwyddiant a llawenydd. Yr oedd yno luaws mawr wedi dyfod yn nghyd.

Y Rhew Mawr.—Clywwn lawer o son yn achlysurol am flwyddyn y rhew mawr, a hyny heb bennodi un *date*. Yr oedd y gauaf yn galed yn ein gwlad yn y blynyddoedd canlynol:—1035, 1565, 1663, 1708, 1715, 1723, 1730, 1739, 1762, 1767, 1774, 1785, 1788, 1789, 1802, 1810, 1814, 1838, 1854.

Hyn fyddo credo'r ffermwr mad:—
Cael da o epil goreu'r wlad,
Porent mewn hedd a llawnder rhad;
Haued ei dir a goreu had,
Na foed mewn angen tail neu lad.
Caued yn brydlawn heb nacad,
A chyfoeth buan ga'n ddiwad.—*Sir Jno. Sinclair.* Gwel *Gwladgarwr*, 1836, t. 71,209.

ABERDAR.—Cynnaliwyd gwyl de flynyddol yn Hen Dy Cwrdd, Gorph. 21, a chyngherdd ardderchog yn yr hwyr yn nghapel y Bedyddwyr, yr hwn a roddwyd yn fenthyg i ni gyda phob parodrwydd. Rhoddodd pawb eu help yn rhad ac yn ewyllysgar, am yr hyn yr ydym yn ddiolchgar iawn. Trodd y te a'r canu allan yn llwyddiant perffaith. Teimlir yn ddiolchgar iawn am help Llinos Rhondda, a'i chwaer yn neillduol, yn ogystal ag *outsiders* ereill. Cadeiriwyd gan R. Bedlington, Ysw. Yr oedd yr elw at leihau y ddyled mewn cyssylltiad â'r adgyweiriadau diweddar.

BANK HOLIDAY (Awst 1.)—Trodd ein Ysgol Sul ni allan fel arfer gydag ereill i ffurfio un orymdaith fawr. Talwyd ymweliad eleni â'r foneddiges garedig o'r Ysguborwen, a phresentiwyd *address* iddi, yr hwn a ddarllenwyd gan weinidog yr H.D.C.; wedi ychydig ganu ac areithio dychwelodd pob ysgol i'w lle ei hun i gael te. Cawsom ni gyfarfod plant llwyddianus yn yr H.D.C.

CWMBACH.—Nos Iau, Awst y 14eg, cyn ymadawiad o'r lle o Mr. George Thomas, ymgynnullodd amryw o'i gyfeillion gwres og yn y capel perthynol i'r Undodiaid yn y lle, i gyflwyno iddo chwech cyfrol hardd o'r *Popular Educator*, fel arwydd o'n teimlad a'n dymuniadau goreu iddo parth ei lwyddiant fel *assistant master* yn Ysgol Bwrdd y Garnddiffaeth. Bu am flynyddau yn un o aelodau mwyaf defnyddiol a ffyddlonaf yr eglwys yn y Cwmbach a'r Ysgol Sul, a gwelir a theimlir yn ddwys y golled o'i golli.

CRIBIN.—Dydd Llun, yr 8fed cyfisol, cynnaliwyd yr wyl de flynyddol mewn cyssylltiad â'r Ysgol Sul yn y lle uchod, yr hon a drodd allan yn llwyddiant perffaith yn mhob ystyr. Gwnaeth pawb eu goreu er boddloni'r plant. Yn yr hwyr, cafwyd y cyfarfod llenyddol arferol, pryd yr adroddwyd amryw ddarnau addysgiadol gan y plant, ac y canwyd gan y gwahanol bartion. Y mae lle i gredu fod pawb wedi eu llwyr foddloni, a gobeithio y caiff y plant bob annogaeth i fyned yn y blaen etto.

Henaint ni ddaw ei hunan—hen air yw,
Yn wir oll yn mhob man;
Edrych ar ddyn mewn oedran,
Llun ei wedd mae oll yn wan.—*Tegid.*

Dylai addysg fod yn ddadblygiad yr holl gynneddfau, er mwyn cael allan eu angenion eu hunain, a dal gafael ar eu meithriniaeth briodol, a hyn nid mewn ieuenctid yn unig ond trwy yr oll o fywyd.

Dywedir am offeiriad Gwyddelig iddo ddarllen gyda theimlad dwys fel yma yn ddiweddar: "Dros *lawenydd* yr erys wylofain, ond erbyn y boreu bydd *nos!*" (Gwel Ps. xxx. 5.

Ar farwolaeth Merch Ieuanc.

Wrth edrych ar ei delw hardd,
Ei llygaid ac ei gwen;
Meddyliem am flodeuyn gardd
Cyn henaint oedd yn hen;
Ni welodd hi flynyddoedd gwae
Er hyn gwywai ei gwedd;
Mal y blodeuyn plygu a wnae
Cyn henaint tua'r bedd.—*Tegid.*

Mae achwyniad cyffredin yn rhai manau fod "llawer o'r Annybynwyr yn slipio i Sosiniaeth." Carem pe byddent yn syrthio i onestrwydd a ffydd ddiffuant ar yr un pryd. Nid digon colli yr hen angorfa, dylid gwneuthur ymdrech am angorfa newydd.

Hwyr yr erys Duw cyn taro,
Llwyr y dial pan y delo.—*Pwy?*

PRIODAS.

Priodwyd yn Pantdefaid ar y 5ed o Gorphenaf diweddaf, gan y Parch. T.T. yn mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. Evan Jones, Llain, a Miss Hannah Evans, Gwarcefel, Llandyssul.

Marwgofion.

Mai 9, Hugh Watkin, cigydd, Hirwaun, yn 57 mlwydd oed, ar ol cystudd byr. Y dydd Iau canlynol, daeth tyrfa luosog i'w hebrwng i dy ei hir gartref yn mynwent Eglwys Penderyn. Gadawodd wraig a dau o blant a pherthynasau a chyfeillion lawer i alaru ar ei ol. Rhagluniaeth y nef fyddo yn nodded i'r weddw ac i'r rhai bychain y bu ef yn dad mor dyner a gofalus o honynt. Bu yn dderbyniwr, yn ddarllenwr, ac yn dalwr cysson am YR YMOFYNYDD am lawer o fynyddoedd.

Mehefin 12, yn dair mlwydd oed, John Thomas, Winllan, ger Penrhiwpâl, Troedyraur. Claddwyd ef yn Mhantdetaid y dydd Mawrth canlynol. Gwasanaeth y gladdedigaeth a gyflawnwyd gan y Parch. W. James, G.C.

Mehefin 21, ar ol mwy nâ 12 mis o gystudd, yn 10 mlwydd oed, John Evans, Ffynnon Llewelyn, Llandyssul. Claddwyd ef yn Mhantdefaid y dydd Gwener canlynol. Pregethodd y Parch. Mr. Jenkins, Ficer y Plwyf, yn y ty annedd, a'r gweddill o'r gwasanaeth a gyflawnwyd gan y Parch. T. T. yn Mhantdefaid. Boed ffydd rhieni yr ieuanc ymadawedig yn ddiysgog yn Nuw ac yn Iesu Grist.

Mehefin 22, yn 10 mis oed, Nell Thomas, Crossgwyn, Llanarth, Ceredigion. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn Mhantdefaid. Gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Gorphenaf 15, ar ol blynyddoedd o gystudd, yn 65 mlwydd oed, Gwenllian James, Pwllcwarau, Llanwenog. Claddwyd y dydd Mawrth canlynol yn mynwent Alltyplaca, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol gan y gweinidog. Dyma fwlch etto etto yn y mur. Pwy a'i lleinw? Menyw dda, ddidwyll oedd Gwen, ac aelod ffyddlon o Eglwys Iesu Grist. Hyderwn fod y symmudiad wedi bod yn elw iddi hi, er i ni ar y ddaear fod yn galaru a chwyno o herwydd ein colled. Boed i'w chwaer oedranus gael modd i gymmedroli ei galar drwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu.

Gorphenaf 19, yn 44 mlwydd oed, Mr. Thomas Phillips, Blaendewi Fawr, yn Mhlwyf Trelech. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Phillips, Blaentrafle—teulu adnabyddus iawn i'r rhan amlaf, os nid yr oll, o'r gweinidogion Undodaidd Cymreig. Y dydd Gwener canlynol, claddwyd ein hanwyl gyfaill yn mynwent Rhydyparc. Cyflawnwyd y gwasanaeth yn y ty cyn cychwyn o'r orymdaith gan y Parch. Mr. Davies, Blaenycoed (A.), yr hwn, mewn anerchiad byr, a siaradodd yn barchus am yr ymadawedig fel cyfaill haelionus y tlawd a'r angenus. Yn y capel, pregethodd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yr hwn, bellach, sydd wedi cael y gorchwyl pruddglwyfus o wasanaethu yn angladdau nifer lluosog o hen ffyddloniaid Rhydyparc. Gorphenwyd ar lan y bedd gan y Parch. Mr. Davies. Trelech, mewn anerchiad a gweddi. Coffhaodd yntau yn dyner am garedigrwydd yr ymadawedig, a dyrchafodd garedigrwydd fel elfen brydferth a phwysig mewn cymmeriad. Gadawodd ein hanwyl gyfaill weddw a dwy ferch ieuanc ar ei ol, y rhai nid oes gyda ni yn awr ddim i'w wneyd drostynt ond eu cyflwyno i ofal Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon.—*J. D.*

Awst 3, yn 65 mlwydd oed, o glefyd y galon, Martha, gwraig David Davies, Cefnperkin, Llanybyther. Y dydd Sadwrn canlynol, pryd y pregethodd Ficer y Plwyf, hebryngwyd hi mewn elorgerbyd f gladdfa Eglwys Newydd Llandyssul. Gadawodd hen wr a dau fab a dwy ferch i alaru eu colled ar ei hol, a llawer o berthynasau a chyfeillion ereill. Mae y plant oll wedi priodi, ac wedi eu gosod mewn sefyllfaoedd da, oddigerth y ferch ieuengaf: mae hi heb fyned i'w thy ei hun etto, a da hyny i'r hen wr yn awr. Yr oedd yn un o'r gwraged blaenaf yn ei hardal yn ngolwg y tylodion a'r cyfoethogion. Yr oedd yn rhagori yn ei rhinwedd a'i daioni. Yr oedd yn ddiwyd ac yn llafurus iawn fel Martha gynt, ac yr oedd fel Mair hefyd—wedi dewis y rhan dda, yr hon ni ddygir oddiarni. Na fydded i'r hen dad a'r plant alaru fel rhai heb obaith y cânt gydgyfarfod etto.

Er dodi'm chwaer yn mhwll y bedd,
Adgyfyd etto'n fyw;
I fyd y saint, i wynfyd hedd,
I ryddid meibion Duw.

Awst 6, Thomas Rees, Llwynhelyg, Ram, ger Llanbedr, yn 87 oed. Mwynhaodd ein hen gyfaill diniwed hwn iechyd rhagorol drwy ystod ei oes hirfaith hyd o fewn i ryw bum' mis i'w farwolaeth. Cafodd gystudd blin a phoenus dros y tri mis olaf o'i fywyd, ond dyoddefodd y cyfan yn hynod dawel. Ymddygodd ei ferch, Eliza, yn hynod dirion tuag ato mor bell ag yr oedd yn bossibl iddi dan yr amgylchiadau yr oedd ynddynt. Gwnaeth ei goreu mewn ysbryd gwir Gristionogol i weini iddo, ac i leddfu ei boenau hyd dranc. Boed iddi hi a'i brodyr a'i chwiorydd oll ymdawelu, gan ymdrechu bod yn ffyddlon i bob dyledswydd, ac yn gydweithwyr â'u Duw yn mhob rhinwedd a daioni. Felly, cânt huno mewn hedd ac nid yn drist. Pregethwyd yn y ty ar yr achlysnr gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, oddiwrth 2 Bren. xx. 1. Claddwyd yn mynwent Eglwys Blwyfol Llanbedr.

J. Howell, Argraffydd, Aberdar.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—Mrs. H., Gilfach Goch; T.J., Danffynnon; J.J., Quakers' Yard; E.P., Glyncorrwg; P.P., St. Clears; T.L., Porthcawl; J.J., Tonypandy; W.J., Wick; Mrs. J., New Tredegar; E.G., Aberdar; T.D., Dolbwba.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
MEIRION COTTAGE,
ABERDARE.

CAPEL CRIBIN, SIR ABERTEIFI.

Cydnabyddwyd eisioes, £102 12s. 6ch. David Rees, Weaver, Llandyssul, 2s. 6ch.; Henry Jones, Frondyssul, 2s. 6ch.; Mrs. Evans, Porth Hotel, 5s.; J. Evans, Solicitor, 10s.; D. Jones, Watchmaker, 2s. 6ch.; D. Davies, Alma House, 3s.; R. Lloyd, Saddler, 1s.; Thomas Jones, Merchant, 5s.; James Jones, etto, 1s.; John Evans, Shoemaker, 2s.; John Rees, Cilgwynbach, 5s.; A Friend, 2s. 6ch.; W. Thomas, Dolgrogws, 5s.; Mrs. Thomas, Richmond House, 4s. 6ch.; T. C. Davies, Llandyssul, 10s.; T. Lewis, etto, 1s.; Rhys Davies, Currier, 2s.; Evan Davies, Troedyrhiw, 5s.; Mrs. Jones, Gelly, 10s.; John Davies, Gwarcefel Arms, 2s.; John Evans, Penlan, Gyfeile, 10s.; Timothy Evans, etto, 10s.; Rees Evans, Tynewydd, Gyfeile, 5s.; Hannah Davies, Maesyffin, 2s. 6ch.; Hannah Davies, Penlon, 2s. 6ch.; Anne Evans, Penlan, 1s.; Mary Jones, Tycanol, 1s.; Evan Jones, Felin, Rhydowen, 2s. 6ch.; John Jones, Camnantfach, 2s. 6ch.; John Jenkins, Gwarllwynoidos, 10s.; Mrs. Jenkins, etto, 5s.; Mrs. Evans, etto, 5s.; James Davies, Cefngwallter, 5s.; William Jones, Blaenwaun, 5s.; A Friend, Llanwnen, 2s. 6ch. Casglwyd gan Miss Sarah Evans, Mynach Arms:—David Thomas, Aldergate, 10s.; Saunders Davies, Felinfach, 1s.; David Davies, etto, 5s.; James Davies, etto, 2s. 6ch.; Daniel Davies, etto, 2s.; J. Jenkins, Post Office, etto, 5s.; David Jenkins, Cribin, 5s.; Rev. J. Davies, Alltyplacca, 10s.; David Rees, Ty'nclawdd, £1; Evan Jones, Dolbwba, 2s. 6ch.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnelir y Cyfarfod Chwarterol nesaf yn Llanbedr, ar y 5ed a'r 6fed o Hydref. Ceir hyspysrwydd pellach yn y rhifyn nesaf.

R. C. JONES.

YN AWR YN BAROD

"BANNAU FFYDD UNDODWR,"

Wedi ei gyfieithu gan y

PARCH. T. THOMAS, PANTDEFAID.

Anfoner *orders* oddiwrth Ysgolion Sul ac ereill yn ddioedi at y PARCH. W. JAMES, *Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

D.S.—Yr ydym yn taer gymhell i sylw cyfeillion fod taliad yn ddyledus i'r drysorfa uchod. Anfoner at y Gol.